# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ36343, a gyhoeddwyd gan Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth, ar 10 Awst 2004

**At Mark Isherwood:**

Yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 23 Mehefin, addewais y byddwn yn ysgrifennu atoch ynghylch trafnidiaeth, gyda phwyslais arbennig ar gefnffordd yr A550.

Mae'r A494/A4950 yn cael ei ledu o fod yn ffordd ddeuol ddwy lôn i fod yn ffordd ddeuol dair lôn rhwng cyfnewidfa Parc Glannau Dyfrdwy a Drome Corner, ac i ffordd ddeuol bedair lôn rhwng Drome Corner a phont afon Dyfrdwy. Disgwylir y bydd y cynllun dylunio ac adeiladu £14.5 miliwn yn cael ei gwblhau yn hwyrach eleni.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu parhau i uwchraddio'r rhwydwaith o gefnffyrdd o'r ffin gyda swydd Gaer mewn cyfeiriad de-orllewinol yn dilyn y cynllun hwn, drwy adeiladu cynllun yr A494 Drome Corner i Ewloe (Aston Hill) a gwelliant i'r A55/A494 yng nghyfnewidfa Ewloe. Bydd y cynlluniau diwethaf yn ddibynnol ar gyflawni'r gweithdrefnau cydsyniad statudol ac argafaeledd cyllid.

Ymgynghorwyd yn gyhoeddus ar gynllun Drome Corner i Ewloe yn 1992, ac yn dilyn hynny dewiswyd yr opsiwn a ffafriwyd yn 1993. Byddwn yn cyhoeddi gorchmynion drafft dan Ddeddf Priffyrdd 1980, a bydd cyfle i unrhyw unigolyn neu gorff cyfrannog gynnig sylwadau, cyflwyno achos neu wrthwynebu'r cynigion. Os bydd yn addas, bydd ymchwiliad lleol cyhoeddus yn cael ei gynnal gerbron archwilydd annibynnol i ystyried y gwrthwynebiadau cyn y gwneir penderfyniad terfynol am y gorchmynion.

Ymgynghorwyd ar yr opsiynau ar gyfer gwella yr A55/A494 yng nghyfnewidfa Ewloe yn 1996; wedi hynny, tynnwyd y ddau opsiwn yn ôl. Bydd hyn yn awr yn destun ymgynghori cyhoeddus pellach cyn i ni fabwysiadu'r opsiwn o lwybr sy'n cael ei ffafrio, a fydd wedyn yn dod dan yr un canllawiau statudol â chynllun Drome Corner i Ewloe.

Bydd y cynlluniau hyn yn cael eu cyflenwi gan gynllun gwelliannau cyffordd A5117 Parc Glannau Dyfrdwy Asiantaeth y Priffyrdd yn Lloegr i wella'r llwybr a'r cyffyrdd ar yr A5117 rhwng yr A550 a'r M56. Ym misoedd Mai/Mehefin 2001, ymgynghorwyd â'r cyhoedd ar opsiynau, a dilynwyd hyn â datganiad am ba lwybr a ffafriwyd ym mis Ebrill 2002. Bydd cynllun Asiantaeth y Priffyrdd yn cymryd lle dau gylchfan sydd eisoes yn bodoli a chyffordd a reolir gan signalau ar gyffordd Woodbank, ac yn creu cyfunioniad gwell o ffyrdd. Bydd hyn yn golygu bod y ffyrdd yn fwy diogel, bod llai o dagfeydd arnynt a bydd yn gwella'r mynediad at ardal ddiwydiannol Parc Glannau Dyfrdwy yn ogystal â darparu cysylltiad sydd yn llifo'n rhwydd rhwng yr M56, drwy'r A5117 i'r A550 yn y Gogledd. Mae'r gwaith o gynllunio hyn yn bwrw ymlaen, a disgwylir y bydd gorchmynion drafft yn cael eu cyhoeddi ar ddechrau 2005, pan fydd gan y cyhoedd yr hawl i gynnig sylwadau. Yn dilyn cwblhau'r cyfnod o weithdrefnau statudol, mae Asiantaeth y Priffyrdd yn disgwyl y bydd y gwaith adeiladu yn dechrau yn 2006-07 ac yn gorffen erbyn 2008-09.

Mae pob un o'n cynlluniau ffordd newydd yn ystyried y cynnydd mewn traffig yn y dyfodol. Yn gyffredinol, cymerir mai'r rhychwant o sefyllfaoedd rhwng twf isel ac uchel a broffwydir ar sail genedlaethol yw hyn. Bydd hyn yn darparu ar gyfer y rhan fwyaf o amgylchiadau lle mae bwriad datblygu. Yr ydym yn craffu ar gynlluniau datblygu unedol er mwyn nodi ar amgylchiadau penodol allai effeithio ar y sefyllfaoedd posibl. Fodd bynnag, mae'n amlwg yn annoeth i gynllunio ar gyfer datblygiad anarferol os na roddwyd caniatâd cynllunio ar ei gyfer. Os oes goblygiadau traffig ar gyfer datblygiadau mawr fydd yn dilyn yn y dyfodol,

dyweder ar gyfer cyffyrdd, byddwn yn cydweithio gyda'r datblygwyr lle'n bosibl, er mwyn sicrhau bod cynhwysedd addas yn cael ei ddarparu.